# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 24 Mehefin 2022

**TEITL:** Rolau Aelodau Arweiniol

**AWDUR:** Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cadarnhau rolau'r Aelodau Arweiniol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn cadarnhau rolau'r Aelodau Arweiniol fel y nodir yn adran 4.4.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Mehefin 2020, fe wnaeth y Bwrdd fabwysiadu strwythur llywodraethu rheoli prosiect, rhaglen a phortffolio er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gynnwys sefydlu Byrddau Rhaglen i oruchwylio'r cyflawni gweithredol.

4.2. Roedd y strwythur llywodraethu yn cynnwys penodi Aelod Arweiniol i bob un o'r pum Bwrdd Rhaglen yn ogystal â'r rôl Aelod Arweiniol bresennol ar gyfer Trafnidiaeth.

4.3. Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, mae angen ail-gadarnhau'r rolau hyn.

<u>Rolau Arfaethedig yr Aelodau Arweiniol</u>

4.4. Mae'r tabl isod yn gosod rolau arfaethedig yr Aelodau Arweiniol gan y Swyddfa Rheoli Rhaglen, gyda chefnogaeth gan y Bwrdd Portffolio. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddor o sicrhau dilyniant i'r rhaglenni ar yr adeg allweddol hon o gyflawni.

| Rhaglen | Aelod Arweiniol Arfaethedig |
|---|---|
| Digidol | Y Cynghorydd Mark Pritchard |
| Ynni | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Tir ac Eiddo | Y Cynghorydd Jason McLellan |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Y Cynghorydd Charlie McCoubrey |
| Trafnidiaeth | Y Cynghorydd Ian Roberts |

4.5. Yr unig newid a gynigir yw bod y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd newydd Cyngor Sir Ddinbych, yn cymryd rôl yr Aelod Arweiniol ar gyfer y Rhaglen Tir ac Eiddo. Y Cynghorydd Hugh Evans, cyn Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, oedd yn y rôl yn flaenorol.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae'r cynnig yn rhan o drefniant llywodraethu gweithredol presennol.

---

**ATODIADAU:**

**Dim**

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.